Estyn
Y Comisiwn Gofal Iechyd
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM
Arolygiaeth Carchardai EM
Arolygiaeth Prawf EM
Y Swyddfa Safonau mewn Addysg
Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Arolygiad ar y Cyd o Dimau Troseddau Ieuenctid Cymru a Lloegr

Adroddiad Ailarolygiad ar: Wasanaeth Troseddau Ieuenctid Powys

ISBN: 978 1 84099 128 4

2008

Rhagair

Amlygwyd nifer o ddiffygion yn sgil yr arolygiad o Wasanaeth Troseddau Ieuenctid Powys, a gynhaliwyd ym mis Ebrill a mis Mehefin 2006 o dan gyfnod tri yn rhaglen adolygu'r TTI. Roedd camau'n cael eu cymryd o hyd yr adeg honno i fynd i'r afael â'r pryderon hyn ond roedd angen cynhyrchu canlyniadau pendant o hyd. Felly, cynhaliwyd ailarolygiad ym mis Medi 2007, yn canolbwyntio ar yr argymhellion a geir yn yr adroddiad gwreiddiol.

Roeddem yn falch o weld bod y Bwrdd Rheoli wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cynllun gweithredu yn dilyn yr arolygiad gwreiddiol. Roedd Cylch Gorchwyl newydd wedi cael ei lofnodi, roedd yr aelodaeth wedi cael ei hadolygu a staff newydd wedi'u penodi, gan gynnwys dau reolwr gweithredol newydd. Roedd gan y Bwrdd Rheoli ddealltwriaeth well o'i rôl a'i gyfrifoldebau a gwnaeth y tîm staff argraff ar yr arolygwyr gyda'u brwdfrydedd, eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u hymroddiad cyffredinol. Gwelwyd tystiolaeth o welliant yn ansawdd yr arferion, ond roedd gwaith i'w wneud o hyd mewn rhai meysydd cyflwyno gwasanaeth allweddol. Er mai megis dechrau y mae'r broses o newid a gwella rheoli ac arfer, rydym yn fwy hyderus fod gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid y potensial o ran arweinyddiaeth ac adnodd i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael gwasanaeth da yn y dyfodol.

Andrew Bridges
Prif Arolygydd Gwasanaeth Prawf EM

Chwefror 2008

Cydnabyddiaethau

Hoffem ddiolch i holl staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, aelodau o'r Bwrdd Rheoli a'r sefydliadau partner am eu cymorth wrth sicrhau bod yr arolygiad hwn yn cael ei gynnal yn ddidrafferth.

Prif Arolygydd	*John Llewellyn Thomas Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru*
Arolygwyr	*Ann Bateman Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru,* *Steve Blackburn Arolygiaeth Prawf EM,* *Keith Humphries Arolygiaeth Prawf EM,* *Claire Yardley Estyn*
Aseswr Ymarfer	*Paula Williams Arolygiaeth Prawf EM*
Cyhoeddiadau	*Deborah Hewitt, Zach Rathore*
Staff Ategol	*Gareth Collins Arolygiaeth Prawf EM*
Rheolwr y Rhaglen	*Julie Fox Arolygiaeth Prawf EM*

Cynnwys

	Tudalen
Cydnabyddiaethau	2
Geirfa	4
Crynodeb	5
ARGYMHELLION - Gweithredu gan:	7
Y Prif Weithredwr	7
Cadeirydd y Bwrdd Rheoli	8
Rheolwr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid	12
Sefydliadau Partner	19
Cymuned a Thai	21
Heddlu Dyfed Powys	22
Y Bwrdd Iechyd Lleol	22
Yr Awdurdod Lleol	24
Gyrfa Cymru	26
Cyngor Sir Powys	27
Atodiad 1 Gwybodaeth gyd-destunol	28
Atodiad 2 Data arolygu	29
Atodiad 3 Ystadegau allweddol	30
Atodiad 4: Trefniadau arolygu ar y cyd	31
Atodiad 5: Rôl Arolygiaeth Prawf EM a chod ymarfer	31

Geirfa

Asset	Erfyn asesu a ddatblygwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
CAMHS	Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc
CCTV	Camerâu Cylch Cyfyng
PDC	Partneriaeth Diogelwch Cymunedol
PPPhI	Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
GCH	Gorchymyn carchariad a hyfforddi
Estyn	Arolygiaeth EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
EM	Ei Mawrhydi
Arolygiaeth Prawf EM	Arolygiaeth Prawf EM
RhGDd	Rhaglen Goruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys
PDG	Plant sy'n Derbyn Gofal
AALl	Awdurdod Addysg Lleol
MAPPA	Trefniadau Amlasiantaeth ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd
NACRO	Cymdeithas Genedlaethol dros Ofal ac Adsefydlu Troseddwyr
Safonau Cenedlaethol	Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid
Ofsted	Swyddfa Safonau Addysg
PDAC	Canolfan Cyffuriau ac Alcohol Powys
ACD	Adroddiad Cyn Dedfrydu
PN	Perygl Niwed
CLG	Cytundeb Lefel Gwasanaeth
CAMPUS	Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol
BCI	Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
PCCI	Panel Cefnogi Cynhwysiad Ieuenctid
GTI/TTI	Gwasanaeth/Tîm Troseddau Ieuenctid

Crynodeb

Rheoli a threfniadau partneriaeth

- Canfuom Fwrdd Rheoli wedi'i ailffurfio a oedd wedi ymateb yn gadarnhaol i argymhellion yr adroddiad arolygu blaenorol. Roedd asiantaethau partner wedi cytuno ar, ac wedi llofnodi Cylch Gorchwyl newydd, a chynrychiolaeth a phresenoldeb priodol ar draws ystod o ddiddordebau wedi'i gyflawni. Roedd aelodau yn dechrau cael dealltwriaeth well o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd y Bwrdd Rheoli wedi cydnabod yr angen i fod yn fwy effeithiol o ran rheoli perfformiad ac roedd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi trefnu bod amser ymgynghori ac arbenigedd ar gael ar gyfer hyn.
- Roedd tystiolaeth i ddangos bod y GTI yn cael ei gysylltu'n agosach yn yr awdurdod a'i fod mewn sefyllfa well gyda'r Bartneriaeth Pobl Ifanc a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Roedd hefyd yn ymgymryd yn llawn â'r gwaith o gynhyrchu Cynllun Plant newydd erbyn mis Chwefror 2008.
- Mae sawl cytundeb lefel gwasanaeth wedi cael eu hadolygu ac roeddent naill ai wedi'u llofnodi neu wrthi'n cael eu cwblhau. Roedd uwch staff allweddol newydd wedi cael eu penodi mewn gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, gan greu effaith gadarnhaol. Yn ychwanegol, roedd penodiadau newydd yn cael eu gwneud neu wrthi'n cael eu gwneud i gryfhau timau'r GTI yng ngogledd a de'r sir. Roedd penodi dau reolwr gweithredol yn dechrau dylanwadu ar arfer ac wedi rhyddhau rhywfaint o amser Rheolwr y GTI.
- Nodwyd gwelliannau sylweddol o ran swyddfa'r GTI yn Aberhonddu, ond roedd swyddfa'r GTI yn y Drenewydd yn parhau i fethu bodloni anghenion y GTI. Roedd yn amlwg bod anghydbwysedd o adnoddau rhwng swyddfeydd y gogledd a swyddfeydd y de a bod angen mynd i'r afael â rhai diffygion o ran arfer.

Gwaith yn y llysoedd

- Mae'r GTI wedi ymateb yn gadarnhaol i argymhellion yr arolygiad gwreiddiol. Comisiynwyd y Gymdeithas Genedlaethol dros Ofal ac Adsefydlu Troseddwyr i ymgymryd â hyfforddiant adroddiad cyn dedfrydu ac adolygu arfer hefyd. Roedd system porth didoli wedi cael ei chyflwyno ac roedd ynadon wedi cytuno i lenwi ffurflenni adborth. Roedd gan y GTI berthynas gadarnhaol â staff llys ac roeddent yn mynychu Grwpiau Defnyddwyr y Llys a hyfforddiant panel ynadon.
- Nodwyd yn yr adroddiad bod cynnydd da o ran paratoi adroddiadau cyn dedfrydu o ran fformat, ffynonellau gwybodaeth, amseroldeb, a defnydd o asesu Asset. Y meysydd gwan oedd dadansoddi'r drosedd yn hytrach na disgrifio, effaith ar y dioddefwr fel y mae wedi'i chynnwys yn natganiad effaith gwreiddiol yr heddlu (papurau

Gwasanaeth Erlyn y Goron), bod rhywun yn achosi Perygl o Niwed iddo/iddi ei hun neu gan eraill ac amrywiaeth.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned

- Mae'r GTI wedi ymateb yn gadarnhaol i adroddiad arolygu beirniadol ar lefelau strategol a gweithredol. Trefnwyd bod adnoddau ar gael a gwelwyd ymroddiad y partneriaid yn y gwaith oedd yn cael ei wneud gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned. Roedd staff newydd wedi cael eu penodi, ac eraill wedi'u cytuno, ond nid oeddent ar waith adeg yr arolygiad.
- Er bod trefniadau wedi'u gwneud i wella rhannu gwybodaeth â gwasanaethau plant, addysg, Gyrfa Cymru, yr heddlu ac iechyd, roedd diffygion yn parhau i fod yn y staffio o ran swydd gwaith cymdeithasol, penodi dau aelod o staff addysg, swydd wag nyrsio yn y gogledd, a rôl heddwas y GTI, a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar dde'r sir.
- Fe sylwon ni ar waith da iawn o ran cyflwyno'r 'Polisi Arweiniad wedi'i Arwain gan Berygl' a chyflwyno'r fforymau cynllunio amlasiantaethol.
- Roedd y datblygiadau gydag addysg yn addawol, ond adeg yr arolygiad nid oeddent wedi cael effaith arwyddocaol eto.
- Nid oedd gan nifer o blant a phobl ifanc gynlluniau dysgu unigol ac nid oeddent yn cael eu sgrinio yn rheolaidd ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, roedd Gyrfa Cymru yn dechrau cael effaith, gyda'r GTI yn cyflwyno proses gyfeirio awtomatig i Gyrfa Cymru, a gwybodaeth yn cael ei chyfnewid gyda chaniatâd i fonitro cynnydd.
- Ers yr arolygiad blaenorol, roedd y GTI wedi penodi tîm Panel Cefnogi Cynhwysiad Ieuenctid. Canfuom gysylltiadau da ag asiantaethau partner ar gyfer cyfeiriadau ac ymyriadau priodol, a phrosesau trylwyr ar gyfer recriwtio gwirfoddolwyr i gynorthwyo â gwaith y Panel Cefnogi Cynhwysiad Ieuenctid.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n agored i gael eu carcharu a GCH

- Roedd staff y GTI yn awr yn gweithio yn fwy effeithiol â phlant a phobl ifanc oedd wedi'u dedfrydu i orchmynion carchariad a hyfforddi. Roedd asesiadau cychwynnol yn cael eu cwblhau yn unol â safonau cenedlaethol o ran amseroldeb a'r wybodaeth yn cael ei hanfon i'r sefydliad diogel o fewn 24 awr ym mhob achos. Cwblhawyd y cynllun hyfforddi cychwynnol yn unol â graddfeydd amser safonol cenedlaethol ac roedd gweithiwr y GTI yn cyfrannu i sicrhau ei fod yn cael ei lywio gan Asset ym mhob achos. Roedd y pedwar person ifanc a ryddhawyd i'r gymuned wedi cydymffurfio ag amodau eu goruchwyliaeth.
- Yn yr argymhelliad sy'n ymwneud ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, roedd lle i wella ymhellach.

ARGYMHELLION – Gweithredu gan:

Y Prif Weithredwr

Argymhelliad
Dylai Prif Weithredwr Cyngor Sir Powys sicrhau bod y Bwrdd Rheoli yn cael ei sefydlu'n briodol, bod ganddo Gylch Gorchwyl clir, yn cael ei gefnogi'n effeithiol gan asiantaethau partner a bod aelodau newydd yn cael eu sefydlu a'u paratoi yn briodol ar gyfer eu rôl.

- Fe sylwon ni fod pob aelod o'r Bwrdd Rheoli wedi cytuno ar Gylch Gorchwyl newydd ac wedi'i lofnodi. Roedd adolygu'r aelodaeth wedi sicrhau cynrychiolaeth briodol ar draws ystod o ddiddordebau a gwelliant mewn presenoldeb. Roedd aelodau o'r Bwrdd Rheoli wedi cael 'Arweiniad ar gyfer Aelodau' ac roedd diwrnod cwrdd i ffwrdd yn cael ei gynllunio. Roedd y Bwrdd Rheoli, felly, wedi cael ei sefydlu'n briodol, ac roedd aelodau yn dechrau cael dealltwriaeth well o'u rolau a'u cyfrifoldebau.

Argymhelliad
Dylai Prif Weithredwr Cyngor Sir Powys sicrhau bod gan y GTI rôl strategol glir yn y PDC a'r PPPhI a'i fod yn gallu cynyddu ei allu gyda'u cefnogaeth.

- Bu datblygiadau yn y meysydd hyn ers yr arolygiad blaenorol gyda'r PDC a'r PPPhI yn cael eu cynrychioli ar y Bwrdd Rheoli.
- Roedd Rheolwr y GTI yn aelod o grŵp swyddogion y PPPhI a'r PDC ac roedd y GTI yn cael ei gynrychioli ar eu his-grwpiau priodol.
- Roedd y PPPhI wedi nodi bod angen cynyddu'r cydweithio i sicrhau darpariaeth addysg amser llawn addas ar gyfer plant a phobl ifanc oedran ysgol yn y system cyfiawnder ieuenctid.
- Roedd cynlluniau clir a ystyriwyd yn dda yn yr awdurdod ar gyfer mynd i'r afael â chynhwysiad cymdeithasol a bodloni anghenion plant a phobl ifanc sy'n fwy agored i niwed, gan gynnwys y rheiny sydd mewn cysylltiad â'r GTI.
- Roedd yr awdurdod wrthi'n adolygu ac yn ailstrwythuro ei drefniadau cynllunio plant ac ymgymerwyd â Systemau Gwybodaeth Gymdeithasol i helpu datblygu'r Cynllun Plant ar sail amlasiantaethol ac amlddisgyblaethol. Roedd y GTI yn ymgymryd yn llawn â'r broses hon.
- Roedd y GTI wedi elwa ar allu cynyddol trwy gymryd rhan yn is-grwpiau'r PDC. Roedd y Gronfa Cymunedau Mwy Diogel yn ariannu

rheolwr atal a swydd gwaith cymdeithasol tan fis Mawrth 2008. Byddai swydd y rheolwr atal yn cael ei hadolygu, ond gwnaed ymrwymiad gan wasanaethau plant i ariannu'r swydd gwaith cymdeithasol yn barhaol. Roedd plant a phobl unigol a gyfeiriwyd at y GTI yn elwa'n uniongyrchol ar y Gronfa Gweithgareddau Gwyro yr oedd staff y GTI yn cael mynediad ati ar eu rhan.

- Roedd y GTI mewn sefyllfa dda i ddylanwadu ar yr agendau trosedd a phlant trwy Reolwr y GTI ac aelodau o'r Bwrdd Rheoli.

Cadeirydd y Bwrdd Rheoli

Argymhelliad

Dylai Cadeirydd y Bwrdd Rheoli sicrhau bod cynllun gweithredu yn cael ei ddyfeisio i fynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad arolygu hwn a'i anfon at y prif arolygydd ymhen tri mis i gyhoeddi'r adroddiad gwreiddiol.

- Roedd cynllun gweithredu amserol wedi cael ei gytuno a'i anfon at y prif arolygydd yn unol â'r hyn a oedd yn ofynnol.
- Roedd Prif Weithredwr Cyngor Sir Powys wedi sicrhau bod y cynllun hwn yn cael ei drafod yn llawn gan y Bwrdd Rheoli a bod ei gynnydd yn cael ei fonitro.
- Roedd uwch benodiad allweddol newydd mewn gwasanaethau cymdeithasol wedi cael eu gwneud ers yr arolygiad cyntaf, ac roeddent yn dechrau cael effaith ar lefelau strategol a gweithredol y GTI.

Argymhelliad

Dylai Cadeirydd y Bwrdd Rheoli sicrhau bod y GTI wedi'i staffio'n llawn, a bod gan ei swyddfeydd ddigon o le a'u bod yn cynnwys offer ac adnoddau addas ac mewn lleoliad addas i fodloni anghenion y gwasanaeth ar hyd a lled ardal yr awdurdod.

- Roedd gwelliannau wedi cael eu gwneud yn swyddfa Aberhonddu yn ne'r sir, a oedd wedi cael ei hadnewyddu trwy'r BCI a chyfraniadau gan y cyngor. Roedd yn awr yn cynnig canolfan ar gyfer Rheolwr y GTI, cyfleusterau swyddfa priodol ar gyfer staff ac ar gyfer cyfweld â phlant a phobl ifanc.
- Roedd gan y ddwy swyddfa gamerâu cylch cyfyng ar gyfer cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch.
- Roedd lle swyddfa a lle cyfarfod ar gael yn Llandrindod yng nghanol y sir, ac roedd eiddo arall y cyngor yn hygyrch a gallai staff drefnu lle ynddynt pe bai angen.

- Roedd cyfleusterau fideo gynadledda ar gael ac wedi cael eu defnyddio ar gyfer cyfarfod Rheolwyr y GTI.
- Roedd dau reolwr gweithredol newydd wedi cael eu recriwtio yn allanol ac wedi ymgymryd â'u rolau newydd.
- Roedd swydd gwaith cymdeithasol newydd ar gyfer y gogledd, a dwy swydd ar gyfer swyddogion addysg yn y gogledd a'r de wedi cael eu hariannu a'u cytuno ac yn cael eu hysbysebu. Roedd y ddau benodiad hyn wedi cynnwys defnydd dychmygus a chreadigol o gyllid gan Ddiogelwch Cymunedol, gwasanaethau cymdeithasol a'r BCI, gan ddangos gwaith cadarnhaol a gwaith partneriaeth rhwng addysg a gwasanaethau plant.
- Roedd gwasanaeth PCCI wedi cael ei sefydlu, a chafodd ei lansio yn llwyddiannus ar 9 Mai 2007. Roedd panelau amlasiantaethol lleol wedi cael eu sefydlu ar lefel briodol yn nhair ardal y sir a gwelodd arolygwyr dystiolaeth o arfer da iawn.
- Roedd Bwrdd Rheoli'r GTI hefyd yng Ngrŵp Llywio'r PCCI ac roedd ar fin cael ei gynnwys o dan y PDC.
- Roedd y gwasanaeth prawf wedi darparu swyddog prawf cymwys am ddeuddydd yr wythnos yn ne'r sir, ond dim ond am ddeuddydd y gellid darparu swyddog gwasanaeth prawf yn y gogledd, a oedd yn lleihau ystod y gwasanaethau sydd ar gael. Roedd y GTI yn cael mynediad at wasanaeth prawf y brif ffrwd pe bai angen, ond nid oedd hyn yn effeithiol iawn o ystyried y lleoliad gwledig a'r ffaith mai dim ond un swyddog prawf oedd yn ymdrin â gogledd y sir.
- Bu cynnydd yn y gwasanaethau iechyd, ond roedd swydd wag yn y gogledd a oedd yn cael ei hysbysebu. Roedd CAMHS yn darparu gwasanaeth ar gyfer y de yn unig.
- Roedd heddwas y GTI wedi'i leoli yn y de ac roedd ganddo gyfrifoldebau gweithredol am y sir gyfan. Yn ymarferol, roedd gwaith yr heddwas yn ne'r sir yn bennaf.

Meysydd i'w gwella

- Ni welwyd unrhyw welliant yn swyddfa'r Drenewydd yng ngogledd y sir. Roedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddarparu swyddfa arall gan fod y les yn un tymor byr, ond nid oedd unrhyw gynlluniau pendant ar waith.
- O gofio'r anghysondebau hyn, er bod y baich gwaith yn fwy yng ngogledd y sir, roedd gwahaniaeth yn nifer y staff sydd ar gael i ymgymryd â'r gwaith, ac roedd hyn yn peri pryder.

Argymhelliad
Dylai Cadeirydd y Bwrdd Rheoli sicrhau bod y GTI ac asiantaethau partner yn hyrwyddo cyflwyno gwasanaeth effeithlon trwy adolygu a datblygu protocolau, polisïau a CLGau o ran staffio a darparu adnoddau ar gyfer y GTI.

- Yng nghyfarfod y Bwrdd Rheoli ar 9 Mai 2007, penderfynwyd y byddai pob protocol, polisi a CLG, ar ôl cael eu cwblhau, yn cael eu hadrodd yn ffurfiol i'r Bwrdd Rheoli.
- Yn ystod yr ailarolygiad, gwelodd yr arolygwyr y cytundebau hyn ac roedd yn amlwg bod Rheolwr y GTI, gyda chymorth rhai adnoddau ychwanegol gan y cyngor, wedi gwneud cynnydd sylweddol. Roedd proses wedi cael ei sefydlu i gwblhau'r dasg ac ar gyfer adolygu'r cytundebau hyn, yn cynnwys rheolwyr ar lefelau amrywiol.
- Gwelwyd cyfanswm o oddeutu 20 o ddogfennau ac fe wnaethant roi'r sylfaen i'r GTI ymgymryd â'i waith yn effeithiol. Roedd y rhan fwyaf o'r dogfennau wedi cael eu cwblhau a'u llofnodi.

Meysydd i'w gwella

- Roedd y cytundebau heddlu, addysg ac iechyd yn parhau i fod yn eu ffurf ddrafft, ac nid oedd y cytundeb tai wedi cael ei lofnodi. Roedd yr arolygwyr yn falch â'r cynnydd a wnaed ond byddai'n annog i'r dasg hon gael ei chwblhau a'i chymeradwyo gan y Bwrdd Rheoli i gefnogi a chryfhau gwaith partneriaeth. Gan fod y dogfennau yn parhau i fod mewn cyfnod cymharol gynnar, nid oedd modd asesu effaith y rhain wrth hyrwyddo cyflwyno gwasanaeth effeithlon.

Argymhelliad
Dylai Cadeirydd y Bwrdd Rheoli sicrhau bod Bwrdd Rheoli'r GTI yn datblygu ei fframwaith rheoli perfformiad i fonitro ac adolygu gweithredu'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid a llywio cyfeiriad strategol y GTI.

- Mae'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer 2006/2007 wedi cael ei gwblhau a'i gyflwyno yn brydlon i'r BCI gan y Bwrdd Rheoli, ond roedd nifer o ddiwygiadau yn ofynnol gan y BCI. Roedd y rhain, ar y cyfan, yn ymwneud â gwella perfformiad, adolygu data ac egluro mesurau perfformiad a thargedau nad oeddent wedi cael eu datrys yn ffurfiol adeg yr arolygiad. Serch hynny, roedd y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid yn cynnwys y fframwaith i roi'r cyfeiriad strategol ar gyfer y GTI.
- Ers yr arolygiad, roedd y Bwrdd Rheoli wedi cyfarfod pump o weithiau ac roedd gwella perfformiad wedi cael ei nodi yn faes i'w ddatblygu.
- Roedd Rheolwr y GTI wedi rhoi adroddiadau perfformiad i'r Bwrdd Rheoli yn ddiweddar yn dilyn cyhoeddi enillion chwarterol y BCI, ond ni chanfuom unrhyw dystiolaeth bod y rhain yn cael eu defnyddio i hyrwyddo datblygiad gwasanaeth.

- Roedd Rheolwr y GTI hefyd wedi trafod gwybodaeth am berfformiad gyda'r Bwrdd Rheoli yng nghyd-destun ei ofynion penodol ei hun ac roedd hyn yn cael ei ddatblygu.
- I wella'r broses hon, roedd trefniadau hefyd wedi'u pennu i'r ddau reolwr gweithredol nesaf gael cyfarfodydd chwarterol gyda phartneriaid i nodi tueddiadau, datrys materion lleol a rhoi adborth i Reolwr y GTI a'r Bwrdd Rheoli ar berfformiad.
- Roedd cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli bob deufis wedi canolbwyntio ar Gynllun Gweithredu'r Arolygiad, ac wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r ymweliad â'r GTI gan Gadeirydd y BCI, ac ymweliadau dilynol gan ei swyddogion.

Meysydd i'w gwella

- Nid oedd y fframwaith rheoli perfformiad wedi'i ddatblygu'n ddigonol eto i lywio datblygiad strategol y GTI. Roedd ymgynghorwyr mewnol BCI wedi cael eu darparu i hyrwyddo datblygiad yn y maes hwn. Roedd ymweliadau rhagarweiniol wedi cael eu cynnal adeg yr arolygiad. Brîff yr ymgynghorydd oedd canolbwyntio ar ddatblygu rheoli perfformiad ar gyfer y Bwrdd Rheoli, gan gynnwys systemau sicrhau ansawdd a gweithdrefnau adrodd i'r BCI. Roedd angen i hyn gael ei lywio yn sylweddol gan Gadeirydd y Bwrdd yn ogystal â Rheolwr y GTI.

Argymhelliad
Dylai Cadeirydd y Bwrdd Rheoli sicrhau bod Rheolwr y GTI yn cael goruchwyliaeth ffurfiol a chynlluniedig.

- Roedd trefniadau wedi cael eu gwneud i Reolwr y GTI gael ei oruchwylio gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant. Roedd cyfarfodydd ffurfiol yn cael eu trefnu bob mis ac roedd mwy o gyswllt anffurfiol wrth i gyfleoedd godi. Dywedodd Rheolwr y GTI ei bod yn cael cefnogaeth sylweddol a gwerthfawr gan ei rheolwr llinell.

Meysydd i'w gwella

- Roedd cofnodi'r oruchwyliaeth gynlluniedig ffurfiol yn faes yr oedd angen ei wella yng nghyd-destun prosesau goruchwylio cytûn yr awdurdod lleol a chysylltu â gwerthusiad blynyddol Rheolwr y GTI.

Rheolwr y GTI

Argymhelliad
Dylai Rheolwr y GTI sicrhau bod pob aelod o staff, gan gynnwys staff gweinyddol, yn cael eu goruchwylio a'u gwerthuso'n rheolaidd o fewn fframwaith rheoli perfformiad.

- Rydym yn falch o weld tystiolaeth bod goruchwylio misol ar gyfer yr holl staff wedi cael ei gyflwyno a'i fod wedi'i drefnu chwe mis ymlaen llaw.
- Roedd y GTI yn defnyddio Polisi Goruchwylio Staff Adrannol safonol gyda fformat sylfaenol y gellid ei addasu ar gyfer rôl benodol. Roedd y staff yn llofnodi cytundeb goruchwylio ac roeddent yn gallu cyfrannu at yr agenda a rhoi eu harsylwadau eu hunain. Roedd yr agenda yn ymdrin â:
    - phwyntiau gweithredu o'r oruchwyliaeth flaenorol
    - adolygu a thrafod achosion
    - cynnal a chynllunio hyfforddiant a datblygu
    - tystiolaeth sy'n berthnasol ar gyfer y gwerthusiad blynyddol
    - materion cyffredinol ac unrhyw fater arall.
- Roedd y rhan fwyaf o'r cofnodion goruchwylio wedi cael eu llofnodi gan y rheolwr llinell a'r sawl oedd yn cael ei oruchwylio.
- Roedd gwerthusiadau blynyddol staff wedi cael eu cyflwyno ac roeddent yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer holl staff y GTI sy'n defnyddio'r polisi adrannol. Roedd staff asiantaethau partner yn cael eu gwerthuso yn unol â pholisi'r asiantaeth unigol honno.

Argymhelliad
Dylai Rheolwr y GTI sicrhau bod ymyriadau yr ymgymerir â nhw gyda phlant a phobl ifanc yn cael eu llywio gan asesu trylwyr, eu bod yn cael eu cwblhau i safon foddhaol a'u hadolygu'n rheolaidd.

- Roedd asesiadau a chynlluniau ymyriad Asset wedi cael eu cyflwyno ers yr arolygiad blaenorol.
- Roedd asesiadau cychwynnol Asset wedi cael eu cwblhau o fewn y gofynion safonol cenedlaethol ar gyfer amseroldeb ac ansawdd yn 81% a 63% o'r achosion a archwiliwyd, o'i gymharu â 75% a 42% adeg yr arolygiad gwreiddiol.
- Roedd y dadansoddiad asesu achos yn dangos bod plant a phobl ifanc fel arfer yn ymwneud ag asesiadau Asset a bod cyfranogiad cadarnhaol mewn 12 o'r 16 achos yn y sampl.
- Roedd ymarferwyr wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran adolygu Asset ar y cyfnodau gofynnol mewn 14 o'r 16 achos a arolygwyd.

- Roedd y ffurflen *What do you think?* wedi cael ei llenwi yn 88% o'r sampl o'i gymharu â 56% yn yr arolygiad blaenorol.
- Yn ystod yr arolygiad blaenorol, canfu'r arolygwyr nad oedd unrhyw un o'r achosion y nodwyd eu bod yn 'bryder perygl' neu'n 'ymwybodol o berygl' wedi cael eu cyfeirio at reolwr, yn bennaf oherwydd nad oedd unrhyw rai wedi bod ar gael. Roedd dau reolwr newydd wedi cael eu penodi a fforwm cynllunio achos wedi'i gyflwyno gyda phob cyfeiriad newydd yn cael eu gwirio'n rheolaidd trwy gronfa ddata'r gwasanaethau cymdeithasol, Draig.
- Cynhaliwyd yr apwyntiad cyntaf gyda'r plentyn neu'r person ifanc yn dilyn gorchymyn cymunedol o fewn un diwrnod gwaith i'r ymddangosiad llys mewn 82% o'r achosion o'i gymharu â 50% o achosion o'r blaen. O weddill yr achosion, cafodd 93% eu hapwyntiad cyntaf ymhen pum niwrnod, ac roedd hyn yn welliant sylweddol.
- Roedd camau gorfodi wedi cael eu cryfhau ers yr arolygiad blaenorol. Roedd barnau am dderbynioldeb/annerbynioldeb yn bodloni'r safon genedlaethol ym mhob achos a arolygwyd, a gweithredu ynghylch torri amodau mewn 75% o achosion o'i gymharu â 43% o'r blaen.
- Roedd panelau gorchymyn cyfeirio yn cyfarfod ymhen 20 diwrnod gwaith mewn tri o'r pedwar achos a arolygwyd, ac roedd hyn yn well nag o'r blaen. Cyflwynwyd y contract yn unol â'r gofynion cytûn ym mhob achos.
- Roedd safon yr arfer yn swyddfa Aberhonddu, ar y cyfan, yn uwch nag yn Y Drenewydd, o ran asesu a chynllunio ymyriad Asset. Roedd asesiadau cychwynnol yn cael eu cwblhau yn unol â safonau cenedlaethol, o ran amseroldeb, ansawdd a chyda cyfranogiad y plentyn neu'r person ifanc ym mhob un o'r chwe achos a arolygwyd.

Meysydd i'w gwella

- Roedd y dadansoddiad asesu achos yn dangos bod gwneud penderfyniadau ar asesu a rheoli'r PN wedi gwella ond nad oedd y cyswllt rhwng yr ymyriadau a gynlluniwyd a'r PN a aseswyd yn ddigonol mewn pump o'r chwe achos a arolygwyd.
- Yn ystod yr arolygiad gwreiddiol, canfuom fod cynlluniau adolygu goruchwylio a hyfforddiant dim ond yn cael eu cwblhau yn foddhaol mewn 8% o'r achosion. Nid oeddent yn bodloni gofynion cynnwys y safon genedlaethol nac yn cynnwys amcanion CAMPUS. Dim ond traean o'r cynlluniau oedd yn cynnwys prosesau dioddefwr ac adferol a hanner ohonynt yn unig oedd yn mynd i'r afael ag anghenion unigol y plentyn neu'r person ifanc o ran amrywiaeth. Yn anffodus, bu'r cynnydd yn araf ac adeg yr ailarolygiad, roedd y GTI wedi methu bodloni'r safonau cenedlaethol yn y meysydd hyn. O sampl achos o chwech: nid oedd y cynlluniau goruchwylio ac adolygu wedi cael eu cwblhau yn unol â graddfeydd amser safonau cenedlaethol, nid oeddent yn cynnwys amcanion CAMPUS, nac yn cynnwys prosesau dioddefwr ac adferol yn unrhyw un o'r achosion a arolygwyd. Nid

oedd anghenion unigol y plentyn neu'r person ifanc o ran amrywiaeth yn ddigonol mewn pedwar o'r chwe achos.

- Roedd cynnydd yn erbyn yr amcanion a gynhwysir yn y cynllun goruchwylio/hyfforddi gwreiddiol wedi cael ei adolygu'n foddhaol yn unol â'r safon genedlaethol mewn 40% o'r sampl achos o'i gymharu â 42% yn yr arolygiad blaenorol, a oedd yn siomedig.
- Mae camau wedi cael eu cymryd i sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn deall gofynion y gorchymyn/drwydded yn llawn mewn 67% o achosion o'i gymharu â 42% o'r blaen.
- Roedd lefel y cyswllt â phlant a phobl ifanc yn parhau i fod yn rhy isel. Roedd amlder yr apwyntiadau a oedd yn cael eu trefnu a'u cadw, yn cydymffurfio'n fras â safonau cenedlaethol, â gofynion y gorchymyn/drwydded, ac unrhyw ystyriaethau PN mewn chwech (55%) o'r 11 o achosion a arolygwyd.
- Roedd adolygiadau contract gorchymyn cyfeirio yn parhau i fod yn faes arfer gwan ac nid oedd unrhyw un o'r sampl achos yn bodloni'r safon genedlaethol ofynnol.
- Roedd yn peri rhywfaint o bryder i'r tîm arolygu bod perfformiad cyffredinol y GTI wedi gwella ond bod arfer yn y swyddfa yn Y Drenewydd yn cael effaith negyddol mewn rhai meysydd oherwydd y baich gwaith a lefelau staffio annigonol. I'r swyddfa hon, o sampl achosion o ddeg achos, roedd yr asesiad cychwynnol yn cael ei gwblhau yn unol â safonau cenedlaethol o ran amseroldeb mewn saith achos, ansawdd mewn pedwar achos, a'r plentyn neu'r person ifanc dan sylw mewn chwech o'r achosion a arolygwyd.
- Roedd yr arolygiad blaenorol yn dangos cynnydd annigonol mewn rhai meysydd troseddol allweddol. Fodd bynnag, roedd y darlleniad ffeil ar gyfer yr arolygiad hwn yn dangos rhai gwelliannau calonogol mewn trefniadau byw, addysg statudol, cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg bellach, defnyddio sylweddau, iechyd emosiynol ac iechyd meddwl ac agwedd at droseddu.

Argymhelliad

Dylai Rheolwr y GTI sicrhau bod polisi risg y GTI yn cael ei weithredu'n llawn a bod asesiadau PN yn cael eu cwblhau ar bob achos perthnasol, a bod y rhain yn cael eu hadolygu a'u cadarnhau yn rheolaidd gan reolwyr yn unol â'r hyn sy'n briodol.

- Cafodd pob plentyn a pherson ifanc a gyfeiriwyd at y GTI asesiad Asset neu Onset.
- Roedd y polisi a arweinir gan risg wedi cael ei fabwysiadu'n llawn a staff wedi'u hyfforddi i'w roi ar waith.
- Roedd y 'Llyfryn Arweiniad wedi'i Arwain gan Risg' yn ymdrin â pheryglon aildroseddu, a rhywun yn achosi perygl o niwed iddo/iddi ei hun ac eraill.

- Pan oedd asesiad yn dangos risg uchel yn unrhyw un o'r meysydd hyn, roedd yr achos yn cael ei gyfeirio at fforwm cynllunio amlasiantaethol wedi'i leoli naill ai yn ne neu yng ngogledd Powys. Roedd cyfarfodydd yn cael eu cadeirio gan rywun â chymwysterau addas ac yn cael eu defnyddio i ddatblygu cynllun rheoli risg ac ymyriad unigol a oedd yn cael ei adolygu'n ffurfiol.
- Roedd achosion addas sy'n bodloni'r meini prawf hefyd yn cael eu cyfeirio trwy MAPPA a threfniadau eraill ar gyfer troseddwyr cynhyrchiol.
- Roedd achosion atal yn cael eu trafod a'u rheoli trwy brosesau'r PCCI. Ers yr arolygiad blaenorol, roedd y GTI wedi penodi tîm PCCI ac roedd gweithdrefnau wedi cael eu sefydlu ar gyfer ymdrin â phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu.
- Canfuom gysylltiadau da ag asiantaethau partner ar gyfer cyfeiriadau ac ymyriadau priodol a phrosesau trylwyr ar gyfer recriwtio gwirfoddolwyr i gynorthwyo â gwaith y PCCI.
- Roedd pob achos a oedd yn cael eu hystyried yn risg uchel yn unrhyw un o'r tri chategori yn cael eu trafod mewn sesiynau goruchwylio staff.
- Roedd tystiolaeth ar y ffeiliau achos bod y llyfryn risg yn cael ei ddefnyddio yn rheolaidd ac yn briodol yn y PCCI ac mewn ffeiliau achos eraill.

Argymhelliad

Dylai Rheolwr y GTI sicrhau bod ansawdd yr ACDau yn cael ei wella a bod pob un ohonynt yn seiliedig ar Asset; mynd i'r afael â'r effaith ar y dioddefwr yn unol â'r hyn sy'n ofynnol, nodi unrhyw bryderon ynghylch diogelwch, gwahaniaethu rhwng PN a'r perygl o aildroseddu a chynnwys dadansoddiad llawn o'r ymddygiad troseddol.

- Ymatebodd y GTI yn gadarnhaol i'r argymhelliad hwn yn yr arolygiad gwreiddiol. Comisiynwyd NACRO i ymgymryd â hyfforddiant ACD ac adolygu'r adroddiadau yng nghyd-destun y safonau cenedlaethol hefyd.
- Cyflwynwyd system porth didoli ac roedd ynadon wedi cytuno i lenwi ffurflenni adborth. Roedd hyn yn dechrau cael effaith ar yr ansawdd a gyflawnir.
- Roedd swyddog llys yn mynychu pob llys ac roedd awdur yr ACD ar gael hefyd i ateb unrhyw gwestiynau yn deillio o'r adroddiad.
- O'n harolygiad o sampl o saith ACD:
    - roedd pob un wedi cael eu cwblhau yn ôl fframiau amser safonol cenedlaethol, ac roedd (71%) yn seiliedig ar asesiad Asset
    - roedd pob un o'r plant a'r bobl ifanc wedi cael eu cyfweld o leiaf unwaith ar gyfer yr adroddiad.

- Lle bo'n briodol, roedd rhieni/gofalwyr yn cael eu cyfweld mewn tri (50%) o'r chwe achos, ac ystyriwyd bod y wybodaeth o'r holl ffynonellau perthnasol yn ddigonol mewn pump (71%) o'r achosion.
- Roedd y fformat yn cydymffurfio â safonau cenedlaethol ym mhob achos.
- Roedd hyn yn welliant ar yr arolygiad blaenorol pan ganfuom nad oedd ACDau yn seiliedig ar Asset yn 83% o'r sampl; nid oedd y wybodaeth a gafwyd o ffynonellau perthnasol yn ddigonol mewn 58%; ac nid oeddent yn cydymffurfio â fformat safonol cenedlaethol mewn 63%.

Meysydd i'w gwella

- Nid oedd ACDau yn cynnwys dadansoddiad digonol o'r drosedd yn hytrach na disgrifiad mewn chwe achos.
- Nid oedd yr adroddiadau yn asesu aeddfedrwydd y plentyn neu'r person ifanc yn ddigonol i ddeall difrifoldeb y drosedd mewn 88% o'r adroddiadau o'i gymharu â 95% o'r blaen. Roedd gallu'r plentyn neu'r person ifanc i gyflawni'r ddedfryd arfaethedig wedi gwella'n ymylol o 17% i 38%.
- Nid aethpwyd i'r afael yn ddigonol â'r effaith ar y dioddefwr fel y mae wedi'i gynnwys yn natganiad effaith gwreiddiol yr heddlu mewn 88% o'r ACDau o'i gymharu â 76% o'r blaen, ac nid oedd yn cynnwys gwybodaeth ddigonol a pherthnasol mewn 75% o'i gymharu â 74% o'r blaen. Felly, roedd y cynnydd yn parhau i fod islaw'r safon ofynnol.
- Fe wnaeth yr adroddiad blaenorol ganfod pryderon difrifol o ran diogelu'r plentyn neu'r person ifanc a bod rhywun yn achosi Perygl o Niwed iddo/iddi ei hun neu gan eraill. Nid aethpwyd i'r afael yn ddigonol â'r materion diogelu a nodwyd yn Asset yn 63% o'r sampl o'i gymharu â 95% o'r blaen.
- Nid oedd sylw digonol yn cael ei roi i PN yn 76% o'r sampl o'i gymharu ag 84% o'r blaen, ac roedd perygl o aildroseddu yn wael neu'n annigonol yn 76% o'r sampl o'i gymharu â 90% o'r blaen.
- Nid oedd y gwahaniaethu rhwng y tebygolrwydd o aildroseddu yn ddigonol yn 78% o'r sampl o'i gymharu â 74% o'r blaen. Roedd amrywiaeth yn wael neu ddim yn ddigon yn 75% o'r sampl o'i gymharu â 95% o'r blaen. Felly, yn y meysydd hyn, canfuom fod y cynnydd dim ond wedi gwella yn ymylol.

Argymhelliad
Dylai Rheolwr y GTI sicrhau bod cadw cofnodion trwy system electronig Careworks a systemau ffeilio eraill yn cael ei gydlynu mor effeithlon ag y bo modd er mwyn darparu'n gyflym ddarlun llawn o bob achos unigol, gan gynnwys y RhGDd.

- Ers yr arolygiad blaenorol, roedd system gofnodi Careworks yn awr ar y we ac roedd ei chyflwyno wedi bod yn her. Serch hynny, roedd y staff yn gallu cymryd rhan mewn hyfforddiant ar gyfer y system newydd. Roedd ymarferwyr yn cofnodi pob cyswllt ar Careworks, ond roedd y safon yn amrywio rhwng unigolion a'r ddwy swyddfa.
- Roedd proses weinyddol drylwyr wedi cael ei chyflwyno lle'r oedd pob cyfeiriad yn cael eu cofnodi ar system trwy swyddog gweinyddol a'u trosglwyddo i reolwr gweithredol ar gyfer eu dyrannu o fewn 24 awr. Ar yr un pryd, roedd trefniadau ar waith ar gyfer cysylltu'n ffurfiol trwy lythyr â'r gwasanaethau gyrfaoedd, addysg ac iechyd er mwyn gallu cyfnewid gwybodaeth hanfodol. Roedd hyn yn cael ei gefnogi gan lythyr o ganiatâd wedi'i lofnodi gan rieni/gofalwyr a phobl ifanc am eu caniatâd i rannu'r wybodaeth hon.
- Roedd cofnodion achos wedi'u trefnu'n dda ar y cyfan mewn 14 o'r 16 achos cymunedol a arolygwyd (87%) ac roeddent yn cynnwys gwybodaeth berthnasol mewn 12 o'r 16 achos (75%).

Argymhelliad
Dylai Rheolwr y GTI sicrhau bod ansawdd cynlluniau addysg a hyfforddi ar gyfer pobl ifanc sy'n destun GCH, mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol a sefydliadau hyfforddi, yn cael ei wella.

- Yn ystod y cyfnod rhwng yr arolygiad cyntaf a'r ail arolygiad, roedd pump o blant a phobl ifanc wedi cael eu dedfrydu i GCH ac fe gafodd pob achos eu hadolygu gan arolygydd.
- Dechreuwyd y datblygiadau gyda'r gwasanaethau gyrfaoedd ac addysg, ac roedd rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud. Roedd y cytundeb gyda Gyrfa Cymru wedi cael ei adolygu a'i lofnodi gydag addewid y byddai Gyrfaoedd yn ymweld â phlentyn neu berson ifanc yn y ddalfa i helpu i baratoi ar gyfer eu rhyddhau.
- I ddau o'r tri phlentyn a pherson ifanc perthnasol, roedd trefniadau i fodloni'r anghenion wedi'u hasesu o ran addysg wedi cael eu sefydlu cyn iddynt gael eu rhyddhau, ond roedd safbwyntiau addysg gartref dim ond wedi cael eu cynrychioli mewn un cyfarfod cynllunio. O'r sampl achosion, roedd dau berson ifanc wedi ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant pellach, ôl-16, ac roedd tri wedi bod mewn cysylltiad ag ymgynghorydd personol Gyrfa Cymru.
- Er gwaethaf y darlun cymysg, ystyriwyd bod ymyriadau priodol cyn ac ar ôl rhyddhau yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant yn y gymuned yn ddigonol mewn pedwar o'r pum achos a arolygwyd.

- Roedd dau o blant a phobl ifanc wedi gwneud cynnydd ar ffactorau troseddol yn ymwneud ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, gyda dau yn dangos dim newid o gwbl.
- Roedd pedwar o'r plant a'r bobl ifanc a ryddhawyd i'r gymuned, adeg yr arolygiad, yn cydymffurfio ag amodau'r gorchymyn/drwydded.
- Roedd staff y GTI yn gweithio'n fwy effeithiol gyda phobl ifanc sydd wedi'u dedfrydu i GCH. Roedd asesiadau cychwynnol yn cael eu cwblhau yn unol â safonau cenedlaethol o ran amseroldeb, ac roedd gwybodaeth yn cael ei hanfon at y sefydliad diogel o fewn 24 awr ym mhob achos.
- Roedd y cynllun hyfforddi cychwynnol yn cael ei gwblhau yn unol â graddfeydd amser safonol cenedlaethol ac roedd gweithiwr y GTI yn parhau i sicrhau ei fod yn cael ei lywio gan Asset ym mhob achos.

Meysydd i'w gwella

- Roedd y CLG gydag addysg yn parhau i fod mewn ffurf ddrafft, ond roedd y trafodaethau a'r gweithredu tymor byr yn gadarnhaol.
- O'r pedwar plentyn/person ifanc a ryddhawyd, dim ond un cynllun dysgu unigol oedd wedi parhau ar ôl rhyddhau'r plant/pobl ifanc ac wedi cael eu hadolygu, eu diweddaru a'u rhannu'n rheolaidd gyda darparwyr perthnasol.

Argymhelliad
Dylai Rheolwr y GTI sicrhau bod ymyriadau yn cael eu gwerthuso'n ffurfiol i asesu eu heffeithiolrwydd a'u bod yn cael eu defnyddio i ddatblygu arfer a pholisi.

- Mae Rheolwr y GTI wedi dechrau'r broses o werthuso effeithiolrwydd y gwasanaeth yn ffurfiol. Yn sgil penodi dau reolwr gweithredol, mae'r adnodd hwn wedi rhoi lle i hyn ddatblygu.
- Roedd y garfan aildroseddu ar gyfer 2006/2007 yn dangos bod y GTI yn cyflawni y tu hwnt i'w tharged. Roedd y gyfradd cyn-llys wedi lleihau 11.7%, haen gyntaf 21.5%, cosbau cymunedol 8.7% a gwarchodaeth, dim newid yn erbyn y targed. Roedd y rhesymau dros y gwelliannau hyn mewn perfformiad megis mwy o staff a mwy o gefnogaeth effeithiol, ac arfer gwell, yn cael eu rhannu a'u harchwilio gyda staff mewn cyfarfodydd tîm fel rhan o ddiwylliant dysgu newydd.
- Roedd adolygiadau ffurfiol yn cael eu cynnal trwy'r fforymau cynllunio achosion ar gyfer plant a phobl ifanc yr aseswyd eu bod yn achosi Perygl o Niwed uchel iddyn nhw eu hunain a/neu'r gymuned, neu yn amodol ar orchmynion cyfeirio. Cynhaliwyd y rhain ar ôl y cyfarfodydd cynllunio cychwynnol, yr adolygiadau panel troseddwyr ifanc ac adolygiad statudol bob tri mis.

Meysydd i'w gwella

- Er bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i werthuso rhaglenni atal, nid oedd unrhyw dystiolaeth glir eto bod gwerthuso yn cael ei ddefnyddio i wella effeithiolrwydd a datblygu arfer a pholisi.

Sefydliadau Partner

Argymhelliad
Dylai sefydliadau partner sicrhau bod cynrychiolaeth ar y Bwrdd Rheoli ar lefel ddigon uchel o ran statws ar gyfer gwneud penderfyniadau effeithiol.

- Roedd aelodaeth y Bwrdd Rheoli wedi cael ei diwygio ac adeg yr arolygiad, roedd y gynrychiolaeth ar lefel ddigon uchel o ran statws ar gyfer gwneud penderfyniadau effeithiol.
- Roedd yr aelodau newydd yn cynnwys uwch reolwyr mewn gwasanaethau plant, addysg, prawf, y Bwrdd Iechyd Lleol a thai.
- Roedd gan y Bwrdd Rheoli wedi'i ailffurfio y gallu i gysylltu'n effeithiol â'i asiantaethau a'i bartneriaethau cartref (PDC a PPPhI) ar lefelau strategol a gweithredol.

Argymhelliad
Dylai sefydliadau partner sicrhau bod eu cyfraniadau ariannol uniongyrchol a'u cyfraniadau ariannol anuniongyrchol at waith y GTI yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn ddigonol i fodloni cyfrifoldebau statudol y GTI.

- Roedd y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer 2007/2008 yn cynnwys dadansoddiad manwl o gyfraniadau cyllideb partneriaid. Roedd hyn yn cynnwys costau staffio, taliadau mewn nwyddau a chronfeydd dirprwyedig eraill ond roedd y GTI yn parhau i ddibynnu ar gyllid tymor byr annibynadwy i gynnwys ei wasanaethau craidd. Serch hynny, trefnwyd bod adnoddau ychwanegol ar gael ers yr arolygiad gwreiddiol.
- Roedd dwy swydd rheolwr gweithredol yn cael eu hariannu gan Gyngor Sir Powys. Roedd y gweithiwr cymdeithasol, cydlynydd y PCCI a dwy swydd gweithiwr allweddol PCCI, yn cael eu hariannu gan y Gronfa Cymunedau Mwy Diogel a'r BCI.
- Roedd gweithiwr RhGDd a ariennir gan y BCI a swyddi addysg yn cael eu hariannu ar y cyd gan y gwasanaethau addysg a chymdeithasol. Roedd yr heddlu yn rhoi taliad unigol o £5,000 i gynorthwyo prosiectau atal a gwneud gwaith llanw dros heddwas pan fydd yn absennol. Roedd y gwasanaeth prawf a'r gwasanaeth iechyd wedi

adolygu eu cyfraniadau ac wedi penodi staff o fewn adnoddau presennol i lenwi swyddi gwag.

Meysydd i'w gwella

- Mae'r Bwrdd Rheoli wedi trefnu cyfarfod i drafod fformiwla cyllid ar gyfer y partneriaid statudol, ond nid oedd hyn wedi cael ei gynnal cyn yr arolygiad.
- Er bod ychwanegiadau ad hoc at y gyllideb wedi cael eu gwneud, roedd cytundeb tymor hir i fodloni cyfrifoldebau statudol i'w ddisgwyl o hyd.

Argymhelliad
Dylai sefydliadau partner sicrhau bod eu cynlluniau strategol yn cysylltu'n effeithiol, yn weithredol, â Chynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2006/2007.

- Roedd y Bwrdd Rheoli wedi dechrau mynd i'r afael â'r mater hwn yn ei Gynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2007/2008. Roedd y cynllun yn cydnabod yn glir bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth a chysylltu'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid â chynllun unigol pob asiantaeth ar lefelau strategol a gweithredol.
- Roedd y Pennaeth Cynhwysiad Cymdeithasol, Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Rheolwr y GTI yn gweithio gyda'i gilydd yn agos i ddatblygu'r Cynllun Plant newydd. Roedd y Pennaeth Cynhwysiad a Rheolwr y GTI yn arwain y ddau faes allweddol rheoli ymddygiad a moderneiddio dysgu.
- *'Mae pob Partner ym mhartneriaeth GTI Powys wedi ymrwymo mwyfwy i waith partneriaeth cywir. Deellir ei bod yn anodd ymgymryd â hyn, yn enwedig wrth ystyried nifer partneriaid y GTI. Gwelwyd bod modd cyflawni hyn mewn meysydd eraill, ac rydym am ddysgu oddi wrthynt. Mae arnon ni hefyd eisiau bod yn fwy arloesol yn ein syniadau ar gyfer y dyfodol i sicrhau bod pobl ifanc ym Mhowys yn cael y gwasanaeth gorau posibl, nid yn unig gan y GTI ond gan bartneriaid eraill hefyd'*. Prif Swyddog Gweithredol a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli, Cyflwyniad i Gynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2007/2008.
- Roeddem yn falch o weld ymrwymiad i hyn ar nifer o lefelau yn ystod yr arolygiad hwn, a rhoddodd hyn sylfaen dda ar gyfer cynllunio effeithiol ar y cyd.

Meysydd i'w gwella

- Canfuom nad oedd y Cynllun Strategol Addysg yn cysylltu â'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid.
- Er y bu ymrwymiad clir i waith partneriaeth, nid oedd hyn eto i'w weld yn cael ei weithredu'n effeithiol.

Cymuned a Thai

Argymhelliad
Dylai cymuned a thai sicrhau bod protocol ymarfer yn cael ei ddatblygu sy'n hyrwyddo perthynas waith glir ac agos gyda'r GTI er mwyn diogelu pobl ifanc.

- Roedd Rheolwr a staff y GTI yn ymwneud yn agos â nifer o grwpiau o dan ymbarél y Bwrdd Diogelu Plant Lleol.
- Roedd gweithdrefnau clir ar waith ar gyfer rheoli pryderon amddiffyn plant.
- Roedd protocol a gweithdrefn gyfeirio newydd ar gyfer cydweithio â phlant a phobl ifanc mewn angen wedi cael eu datblygu gyda gwasanaethau plant.
- Cafodd staff o wasanaethau plant a'r GTI eu gwahodd i drafodaethau achos a chyfarfodydd megis PCCI, Amddiffyn Plant a Phlant sy'n Derbyn Gofal, ac fe wnaethant eu mynychu.
- Roedd y ddau reolwr gweithredol newydd wedi sefydlu cyfarfodydd cyswllt rheolaidd gyda rheolwyr tîm i symud eu gwaith yn ei flaen er lles y bobl ifanc y mae'r ddwy asiantaeth yn eu hadnabod.
- Roedd staff y GTI wedi cael mynediad at Draig, y gronfa ddata gwasanaethau cymdeithasol, a oedd o gymorth i hwyluso cydweithio pellach trwy gyfnewid gwybodaeth.
- Roedd arweiniad newydd ar ddigartrefedd wedi cael ei gyflwyno a chytundeb wedi'i bennu ar weithio gyda'r Adran Dai a oedd yn cynnwys y GTI, timau ôl-ofal y gwasanaethau plant a Chefnogi Pobl.

Meysydd i'w gwella

- Roedd y protocol ar y cyd gyda'r gwasanaethau plant eto i gael ei lofnodi a'i roi ar waith. Roedd y protocol ar y cyd yn egluro'r berthynas rhwng y GTI a'r gwasanaethau plant gydag ystyriaeth benodol i gyfathrebu rhwng y timau, a diogelu plant a phobl ifanc.

Argymhelliad
Dylai cymuned a thai sicrhau bod ystod o lety addas ar gael yn lle llety gwely a brecwast.

- Cawsom wybod bod gwelliannau sylweddol wedi digwydd yn y cyd-destun hwn a bod y defnydd o lety gwely a brecwast yn dod i ben yn raddol. Roedd yr adran dai wedi ymgysylltu ag asiantaethau partner i wneud y gorau o'r llety addas sydd ar gael ac roedd wedi caffael cyflenwad newydd o dan drefniadau les sector preifat. Roedd y cyflenwad newydd hwn yn ogystal â chyflenwad yr oedd yr awdurdod lleol yn berchen arno ar gael ar gyfer cyfeiriadau'r GTI. Roedd Aelod y GTI yn awr yn aelod o'r Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl ac roedd y Prif Swyddog Tai yn aelod o Fwrdd Rheoli'r GTI.

- Roedd canllaw arfer da wedi cael ei ddatblygu a thîm prosiect yn cynnwys y GTI, tîm ôl-ofal y gwasanaethau plant a thai wedi'i ffurfio i ddatblygu polisi tai ar y cyd.

Heddlu Dyfed Powys

Argymhelliad
Dylai Heddlu Dyfed Powys sicrhau bod y GTI yn cael gwybod am ei benderfyniad i gyflwyno rhybudd terfynol o fewn diwrnod ar ôl penderfynu gwneud hynny.

- Roedd Heddlu Dyfed Powys wedi sefydlu gweithdrefn newydd lle'r oedd GTI Powys yn cael gwybod am benderfyniadau i gyflwyno rhybuddion terfynol trwy e-bost diogel ymhen 24 awr o'r ddwy orsaf heddlu ddynodedig ym Mhowys sydd ag ystafelloedd gwarchodaeth.
- Roedd cyfeiriadau yn cael eu dyrannu yn y GTI gan y rheolwyr gweithredol mewn cyfarfodydd tîm wythnosol.
- Lle bo'n berthnasol, roedd dioddefwyr yn cael eu gwahodd i gael eu cynnwys yn y broses rybuddio derfynol ac fe wnaethant gymryd rhan mewn dau o'r pedwar achos perthnasol.
- Roedd plant a phobl ifanc yn cael eu hasesu gan y GTI o fewn deg diwrnod i gael hysbysiad gan yr heddlu, ac roedd yr heddlu yn cael gwybod canlyniad yr asesiad o fewn 15 diwrnod gwaith o fechnïaeth ym mhob achos.
- Roedd rhybuddion terfynol yn cael eu cyflwyno o fewn 20 diwrnod gwaith i'r penderfyniad ac roedd ymyriadau'n cael eu cyflwyno fel rhan o'r broses rybuddio derfynol ym mhob achos a arolygwyd.

Meysydd i'w gwella

- Yn y sampl achosion a arolygwyd, nid oedd y safon genedlaethol 24 awr yn cael ei bodloni'n gyson yn y pum achos a arolygwyd. Roedd y mynediad cyffredinol at systemau'r heddlu gan heddwas y GTI yn wael, a dyna sy'n esbonio'r ffaith fod gormod o ddibynnu ar e-bost diogel.

Argymhelliad
Dylai Heddlu Dyfed Powys sicrhau bod mwy o gysondeb ac effeithiolrwydd yn cael eu cyflawni trwy un protocol sylfaenol neu CLG sy'n ymdrin â chyllid a secondiadau staff ar gyfer y pedwar TTI sydd wedi'u lleoli yn ei ardal.

- Roedd drafft cyntaf o Gytundeb Secondio Heddwas Timau Troseddau Ieuenctid Heddlu Dyfed Powys wedi cael ei baratoi gan yr heddlu. Ar ôl ymgynghori, roedd pedwar Rheolwr y GTI sy'n ymdrin ag ardal yr

heddlu wedi cytuno arno. Roedd y cytundeb yn cael ei gytuno a'i lofnodi yn ffurfiol.

Meysydd i'w gwella

- Yn deillio o'r ailarolygiad, roedd gwasanaeth yr heddlu wedi'i leoli yn ne'r sir yn bennaf ac roedd yn ymddangos ei fod yn canolbwyntio'n bennaf ar fentrau atal a gwybodaeth. Credwn y dylai'r ffocws newid i waith rhybudd terfynol, cyswllt dioddefwyr a rhannu deallusrwydd.
- Roedd terfynell Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu wedi bod ar gael yn swyddfa GTI Aberhonddu am sawl mis ond nid oedd wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer hyn oherwydd diffyg hyfforddiant. Roedd y GTI yn hytrach wedi dibynnu ar negeseuon e-bost diogel ac ymweliadau dyddiol â gorsaf yr heddlu.
- Er bod protocol ar gyfer rhannu gwybodaeth ar waith wedi cael ei nodi, canfu'r arolygwyr nad oedd hyn yn cael ei ddeall yn llawn, ac o'r herwydd nid oedd yn cael ei ddefnyddio'n gyson neu i'r eithaf.

Y Bwrdd Iechyd Lleol

Argymhelliad
Dylai'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod plant a phobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl yn cael y lefel briodol o sylw ac ymyriad, a bod darpariaeth yn cael ei hategu gan brotocolau ysgrifenedig a chytûn.

- Mae CLG drafft wedi cael ei ddatblygu rhwng y GTI a CAMHS ac roedd disgwyl iddo gael ei gadarnhau yn dilyn yr arolygiad. Roedd y CLG yn ymdrin â threfniadau ar gyfer cyfeirio ac asesiad iechyd plant a phobl ifanc o dan oruchwyliaeth statudol a gwirfoddol.
- Roedd sesiwn ymgynghori CAMHS ddynodedig fisol wedi cael ei sefydlu sy'n cynnwys gweithwyr iechyd meddwl cynradd. Cytunwyd y dyddiadau ar gyfer y rhain ymlaen llaw, gyda gweithwyr y GTI yn cyflwyno achosion i'w trafod. Gallai'r sesiynau hyn arwain at gyfeirio i sefydliadau eraill, ymgynghoriadau pellach, cydweithio neu gyfeirio brys at arbenigwr.
- Mynychodd cynrychiolwyr iechyd dynodedig gyfarfodydd tîm a'r fforwm cynllunio achosion i drafod achosion unigol.
- Roedd y dadansoddiad asesu achosion yn dangos gwelliant, gyda chyfeirio priodol yn cael ei wneud mewn perthynas ag iechyd corfforol ac emosiynol a meddwl mewn tri (60%) o bob pum achos o'i gymharu â 45% o'r blaen.
- Roedd Rheolwr y GTI yn aelod o Grŵp Gweithredu CAMHS ar gyfer Powys ac roedd hefyd yn cael ei gynrychioli gan gydweithiwr sy'n Rheolwr GTI ar Fforwm Cynllunio Rhanbarthol CAHMS Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Argymhelliad
Dylai'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod gan y GTI lefel briodol o gyfraniad gan staff iechyd arbenigol i'w dîm i gyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau a'i fod hefyd yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth arbenigol arall fel sy'n ofynnol.

- Ers yr arolygiad blaenorol, bu datblygiadau ac roedd cynllun gweithredu i wella'r gwasanaeth wedi cael ei sefydlu. Ar sail bob dydd, roedd proses gyfeirio wedi'i chytuno, wedi'i hategu gan drefniant ar gyfer cael caniatâd, ac i nyrsys ysgol gynnal asesiadau iechyd cychwynnol gan ddefnyddio adrannau perthnasol Asset.
- Lle'r oedd angen asesu mwy arbenigol, roedd plant/pobl ifanc yn cael eu cyfeirio at y person perthnasol dan sylw.
- Roedd staff y GTI wedi cael eu gwahodd i hyfforddiant ar y cyd wedi'i drefnu gan y Bwrdd Iechyd Lleol.
- Roedd gan y GTI CLG priodol ar waith gyda PDAC, gyda pherfformiad yn cael ei adolygu bob mis. Roedd yn ymddangos bod y gwasanaeth hwn wedi'i strwythuro'n dda a'i fod yn cael ei reoli gyda thri gweithiwr cyffuriau ac alcohol arbenigol sy'n cael eu cyflogi ar hyd a lled ardal Powys.
- Roedd y GTI wedi trefnu bod gwasanaeth un aelod o staff cyfwerth ag amser llawn ar gael.
- Roedd achosion y GTI ac amddiffyn plant yn flaenoriaeth i PDAC. Roedd plant a phobl ifanc yn cael apwyntiad wedi'i gadarnhau o fewn pum niwrnod ac yn cael eu gweld o fewn deg diwrnod.

Meysydd i'w gwella

- Nodwyd nad oedd gan y GTI swydd ddynodedig yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau naill ai'n uniongyrchol yn y tîm nac yn rhan ohono.

Yr Awdurdod Lleol

Argymhelliad
Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod ystod ddigonol a nifer o leoedd ar gael i fodloni anghenion unigol plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed i sicrhau eu bod yn cael eu hawl statudol i addysg.

- Adeg yr arolygiad gwreiddiol, roedd yr awdurdod yn adolygu ei ymagwedd ar gyfer yr agenda cynhwysiad cymdeithasol ac roedd wrthi'n ailstrwythuro'r uned cynhwysiad cymdeithasol.
- Roedd trefniadau wedi'u cytuno ar gyfer creu dwy swydd ymgynghorydd addysg GTI/PDG i'w lleoli yn yr uned cynhwysiad

cymdeithasol, ond roeddent wedi'u dyrannu i swyddfeydd y GTI yn y gogledd a'r de. Roedd y swyddi hyn yn cael eu hysbysebu.

- Roedd cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith i staff y GTI gael mynediad at System Rheoli Addysg yr AALl er mwyn gallu olrhain presenoldeb, hawl statudol a statws gwaharddiadau plant a phobl ifanc. Byddai manylion plant a phobl ifanc oedd yn cael eu goruchwylio gan y GTI yn cael eu rhannu, gan alluogi'r asiantaethau i fonitro cyraeddiadau a chyflawniadau unigolion a'r grŵp.

Meysydd i'w gwella

- Yn ystod yr ailarolygiad, canfuom nad oedd cyfran uchel o'r sampl achosion yn derbyn eu hisafswm gofynnol o 25 awr o addysg yr wythnos. O gyfanswm sampl achosion yr 16 o blant a phobl ifanc, roedd dau ohonynt wedi cael eu gwahardd dros dro a thri yn barhaol, ac roedd saith arall wedi cael anawsterau â'u haddysg. Nid oedd gan blant a phobl ifanc yn y GTI gynlluniau dysgu unigol ac nid oeddent yn cael eu sgrinio yn rheolaidd ar gyfer anawsterau llythrennedd a rhifedd. Roedd Prosiect Mentora Heriol Powys yn rhoi cymorth i blant a phobl ifanc ond roedd hyn yn dibynnu ar fenter unigol yn hytrach nag ymagwedd systematig ar gyfer anghenion dysgu person ifanc.
- Er bod y datblygiadau yn gadarnhaol yn y cyd-destun hwn, adeg yr ailarolygiad, roeddent yn y cyfnod cynllunio yn bennaf. Roedd yn ymddangos bod rheolwyr addysg yn cydnabod eu cyfrifoldeb corfforaethol a'r angen am weithlu hyblyg i fodloni anghenion amrywiol plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed.

Argymhelliad
Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod gan y GTI lefel briodol o staff addysg arbenigol yn ei dîm i gyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau a'i fod hefyd yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth arbenigol arall yn unol â'r hyn sy'n ofynnol.

- Roedd yr awdurdod wedi cytuno penodi dwy swydd a ariennir ar y cyd yn unol â'r hyn a nodir o dan yr argymhelliad blaenorol ac roedd y rhain wrthi'n cael eu hysbysebu.
- Fel rhan o'r adolygiad o'r agenda cynhwysiad cymdeithasol, derbyniwyd bod yn rhaid i blant a phobl ifanc nad oeddent yn gallu ymdopi mewn ysgol prif ffrwd gael adnoddau priodol ar gael ar eu cyfer i fodloni eu hanghenion addysgol. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn weithredol trwy'r fframwaith cynllunio plant.
- Roedd staff y GTI wedi adeiladu perthynas dda gydag ysgolion, ac o ganlyniad, roedd staff wedi bod yn mynychu cyfarfodydd tîm y GTI bob mis. Roedd y rhain wedi hwyluso proses gadarnhaol o gyfnewid gwybodaeth am blant a phobl ifanc, a pholisïau ac arferion sy'n effeithio ar y grŵp hwn sy'n agored i niwed.

Meysydd i'w gwella

- Er gwaethaf y datblygiadau cadarnhaol hyn, roedd meysydd i'w gwella o hyd. Roedd gweithwyr ieuenctid yn ymgysylltu ar sail unigol, ond nid oedd digon o amser hamdden strwythuredig ar gyfer plant a phobl ifanc o dan oruchwyliaeth.
- Nid oedd gweithiwr Gwobr Dug Caeredin ar gael i'r GTI, er enghraifft, ac nid oedd y wybodaeth oedd ar gael gan y gwasanaeth lles addysg ar blant a phobl ifanc yn ddigonol pan oeddent yn cael eu cyfeirio yn gyntaf.

Gyrfa Cymru

Argymhelliad
Dylai Gyrfa Cymru sicrhau ei fod yn cyflawni ei CLG presennol gyda'r GTI a'i fod yn gwella ei gyfarfodydd presenoldeb a chyn rhyddhau ar gyfer pobl ifanc dros 16 oed, ac yn sicrhau bod hyfforddiant addas ar gael ar eu cyfer pan gânt eu rhyddhau i'r gymuned.

- Fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn yn flaenorol, roedd y CLG rhwng y GTI a Gyrfa Cymru wedi cael ei adolygu a'i lofnodi ym mis Mehefin 2007. Roedd y cytundeb yn nodi'n glir gyfrifoldebau'r GTI a Gyrfa Cymru ac yn pennu y byddai ymgynghorydd gyrfaoedd personol yn ymweld â pherson ifanc yn y ddalfa i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn y ddalfa neu ar RhGDd yn cael blaenoriaeth.
- O sampl achosion y ddalfa o bump o bobl ifanc, roedd ymgynghorydd gyrfaoedd personol wedi ymweld â thri ohonynt yn ystod eu dedfrydau, a threfnwyd bod cyfleoedd hyfforddi ar ôl rhyddhau ar gael yn unol â'r hyn sy'n briodol. Pennodd y CLG y byddai adolygiad yn cael ei gynnal rhwng y GTI a Gyrfa Cymru yn chwarterol.

Argymhelliad
Dylai Gyrfa Cymru sicrhau bod pobl ifanc dros 16 oed sy'n troseddu yn cael eu holrhain a'u bod yn ymgymryd â chyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth.

- Roedd y CLG rhwng y GTI a Gyrfa Cymru wedi cael ei adolygu a'i lofnodi ym mis Mehefin 2007.
- Roedd proses gyfeirio awtomatig o'r GTI i Gyrfa Cymru wedi cael ei sefydlu a gwybodaeth yn cael ei chyfnewid gan y ddwy asiantaeth ar sail achos unigol.

Meysydd i'w gwella

- Roedd mwy o gyfleoedd i bobl ifanc fynychu Adeiladu Sgiliau, cwrs paratoadol 13 wythnos ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed, ond

dywedodd ymarferwyr fod hyfforddiant ar gael yn well yng ngogledd y sir na de'r sir.

- Roedd yn ymddangos bod defnydd anghyson o gyfleoedd y Porth Ieuenctid ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 19 oed ar hyd a lled y sir.

Cyngor Sir Powys

Argymhelliad
Dylai Cyngor Sir Powys, mewn partneriaeth ag eraill, sicrhau bod ystod ddigonol o lety addas ar gael ar gyfer plant a phobl ifanc ar fechnïaeth neu sy'n ddigartref a/neu sydd ag anghenion cymorth arbennig.

- Ers cyhoeddi'r adroddiad arolygu gwreiddiol, roedd Rheolwr y GTI wedi dod yn aelod o'r Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl a'r Prif Swyddog Tai yn aelod o Fwrdd Rheoli'r GTI. Roedd y newidiadau hyn wedi hwyluso perthynas waith agosach a mwy effeithiol.
- Roedd yr Adran Dai wedi dod yn fwy ymwybodol o anghenion plant a phobl ifanc ac roeddent wedi gallu gwneud y gorau o'r llety addas sydd ar gael trwy ei waith gyda'r sector preifat (trefniadau les y sector preifat), Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a chyflenwad yr awdurdod ei hun.
- Roedd trefniadau ar waith i lety arbenigol gael ei reoli a'i gefnogi gan asiantaethau partner, gan alluogi deiliadaeth gynyddol a gwella ansawdd.
- Roedd gweithdrefn ar waith i sicrhau bod unrhyw blentyn neu berson ifanc digartref yn cael ei gyfeirio i gael ei (h)asesu gan y gwasanaethau plant fel plentyn mewn angen.
- Cawsom wybod fod 96% o'r plant a'r bobl ifanc oedd wedi cwblhau eu cyfranogiad â'r GTI dros y flwyddyn flaenorol wedi cael eu hasesu a'u bod mewn llety priodol.

Atodiad 1 Gwybodaeth gyd-destunol

- Roedd awdurdod unedol Powys wedi'i leoli yng Nghanolbarth Cymru, ac yn cynnwys Sir Drefaldwyn, Sir Faesyfed, a'r rhan fwyaf o Sir Frycheiniog.
- Roedd cyfanswm poblogaeth o 126,354 ym Mhowys, a mesurwyd hyn yng Nghyfrifiad 2001. O'r boblogaeth hon, roedd 22% rhwng 10–17 mlwydd oed adeg y cyfrifiad. Roedd y ffigur ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, 22.8%.
- Roedd poblogaeth Powys yn cynnwys pobl wyn yn bennaf, 99.1%, yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 97.9%. Roedd canran y trigolion Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 0.9%, a hyn yn 0.3% ym Mhowys. Roedd canran y trigolion Du neu Ddu Prydeinig, sef 0.1%, yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 0.3%.
- Lefel y gyflogaeth ym Mhowys oedd 62% ac roedd hyn yn llawer uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 55.2% adeg y cyfrifiad. Roedd lefel y diweithdra yn 2.7%, a oedd yn gyfatebol is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 3.5%. Roedd canran is o fyfyrwyr, yn economaidd weithredol ac anweithredol, yn byw ym Mhowys nag yn genedlaethol adeg y cyfrifiad; 5.1% o'i gymharu â 7.4% ledled Cymru.
- Cofnododd Cyfrifiad 2001 fod 16% o boblogaeth Powys, a oedd yn hŷn na thair oed, naill ai'n gallu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg. Roedd hyn ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 16.3%.

GTI

- Roedd y GTI wedi'i leoli yn Ardaloedd Prawf Dyfed Powys a Heddlu Dyfed Powys. Roedd Bwrdd Iechyd Lleol Powys yn cynnwys ardal awdurdod lleol Powys.
- Mae gwaith y GTI wedi'i leoli mewn dwy brif swyddfa yn Aberhonddu a Llandrindod.

Data perfformiad y BCI

Fe wnaeth crynodeb y BCI o berfformiad y TTI ar gyfer mis Ebrill 2006 – Mawrth 2007 ddyfarnu lefel perfformiad 1 i Bowys ar raddfa o 1-5, a 5 yw'r uchaf, o'i gymharu â lefel perfformiad 2 ar gyfer y cyfnod mis Ebrill 2005 – Mawrth 2006.

Atodiad 2 Data arolygu

Gwnaed y gwaith maes ar gyfer yr ailarolygiad hwn ym mis Medi 2007.

Roedd yr arolygiad yn cynnwys:

- tystiolaeth ymlaen llaw yn erbyn yr argymhellion
- archwilio data perfformiad ac asesiadau'r BCI
- archwilio arfer mewn sampl o achosion, fel arfer mewn cydweithrediad â'r rheolwr achos neu gynrychiolydd arall, fel a ganlyn:
    - 5 ffeil atal
    - 5 rhybudd terfynol
    - 5 cosb haen gyntaf
    - 6 dedfryd gymunedol
    - 6 achos dalfa
- cyfarfodydd â staff, rheolwyr a phartneriaid.

Mae'r sampl a ddewiswyd yn ystyried canran y genethod neu'r menywod ifanc yn y TTI; roedd cyfanswm o ddau achos yn yr achos hwn.

Atodiad 3 Ystadegau allweddol

Ystadegau asesu'r achos allweddol	Ail-arolygiad	Arolygiad gwreiddiol	Cyfartale-dd ar gyfer TTIau cyfnod tri	Amredi-ad ar gyfer TTIau cyfnod tri	Targedau'r BCI
	(% achosion)				
Cwblhawyd yr asesiad cychwynnol yn unol â gofynion y safonau cenedlaethol: – amseroldeb	81% *(n=16)*	75% *(n=32)*	79%	41-100%	100%
– ansawdd digonol	63% *(n=16)*	42% *(n=31)*	68%	36-93%	
Perygl niwed llawn i eraill a gwblhawyd ar achosion perthnasol	17% *(n= 6)*	75% *(n=16)*	62%	0-100%	
Tystiolaeth o reoli arolygiaeth mewn achosion perygl o niwed	100% *(n=1)*	0% *(n=5)*	40%	0-100%	
Mae'r RhGDd yn bodloni gofynion cynnwys y safonau cenedlaethol ac yn cynnwys amcanion CAMPUS	0% *(n=6)*	8% *(n=12)*	27%	0-100%	100% (1)
Mae amlder y penodiadau a drefnwyd yn cydymffurfio'n fras â safonau cenedlaethol, â gofynion y gorchymyn/trwydded, ac unrhyw ystyriaethau perygl o niwed	55% *(n=11)*	68% *(n=22)*	79%	45-100%	
Mae'r barnau am dderbynioldeb/ annerbynioldeb absenoldebau yn briodol	100% *(n=9)*	64% *(n=11)*	74%	40-100%	
Mae torri amodau'r gweithredu yn digwydd, os yw'n ofynnol, o fewn graddfa amser y safonau cenedlaethol	75% *(n=4)*	43% *(n=7)*	56%	0-100%	
Cymerir camau priodol os ystyrir bod plentyn neu berson ifanc yn achosi perygl o niwed iddo/iddi ei hun ac eraill	67% *(n=3)*	67% *(n=8)*	82%	20-100%	
Cymerir camau effeithiol lle bydd tystiolaeth o anawsterau addysgol	100% *(n=7)*	62% *(n=13)*	66%	33-100%	90% (2)
Gwneir cyfeiriadau priodol mewn achosion o: – iechyd corfforol	60% *(n=5)*	67% *(n=9)*	70%	0-100%	
– iechyd meddwl/emosiynol	60% *(n=5)*	45% *(n=11)*	70%	33-100%	100% (3)
– camddefnyddio sylweddau	75% *(n=12)*	72% *(n=18)*	73%	0-67%	100% (4)
Ymgynghorwyd â'r dioddefwr ynglŷn â gwaith cyfiawnder adferol gyda phlentyn neu berson ifanc	92% *(n=12)*	63% *(n=30)*	53%	13-84%	
Asesu ansawdd cyffredinol ACDau	25% n= 7	0%	50%	0-76%	

Atodiad 4: Trefniadau arolygu ar y cyd

Dechreuodd y rhaglen arolygu TTI ar y cyd ym mis Medi 2003 a hon yw'r rhaglen arolygu lawn gyntaf i archwilio gwaith y TTIau. Mae wedi cael ei rhoi ar waith dros bedwar cyfnod, sy'n cynnwys pob TTI yng Nghymru a Lloegr dros gyfnod o bum mlynedd. O fis Medi 2005, mae'r canfyddiadau yn Lloegr wedi cyfrannu at yr Adolygiadau Ardal ar y Cyd o wasanaethau plant (wedi'u harwain gan Ofsted) a'r Asesiad Corfforaethol o wasanaethau awdurdod lleol (arweinir gan y Comisiwn Archwilio)

Atodiad 5: Rôl Arolygiaeth Prawf EM a chod ymarfer

Arolygiaeth annibynnol yw Arolygiaeth Prawf EM, sy'n cael ei hariannu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac yn adrodd yn uniongyrchol i'r Ysgrifennydd Gwladol. Ein diben yw:

- adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol ar effeithiolrwydd gwaith gyda throseddwyr unigol, plant a phobl ifanc sy'n anelu at leihau aildroseddu a diogelu'r cyhoedd, pwy bynnag sy'n ymgymryd â'r gwaith hwn o dan nawdd Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr neu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
- adrodd ar effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer y gwaith hwn, gan weithio gydag Arolygiaethau eraill yn ôl yr angen
- cyfrannu at berfformiad gwell gan y sefydliadau yr ydym yn eu harolygu
- cyfrannu at bolisi cadarn a chyflwyno gwasanaeth effeithiol, yn enwedig wrth ddiogelu'r cyhoedd, trwy roi cyngor a lledaenu arfer da, yn seiliedig ar ganfyddiadau arolygu, i Weinidogion, swyddogion, rheolwyr ac ymarferwyr
- hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a materion amrywiaeth ehangach eraill mewn modd gweithredol, yn enwedig yn y sefydliadau yr ydym yn eu harolygu
- cyfrannu at effeithiolrwydd cyffredinol y system cyfiawnder troseddol, yn enwedig trwy weithio ar y cyd a chydag arolygiaethau eraill.

Nod Arolygiaeth Prawf EM yw cyflawni ei ddiben a bodloni egwyddorion y Llywodraeth ar gyfer arolygu yn y sector cyhoeddus trwy:

- weithio mewn ffordd onest, broffesiynol, deg a chwrtais
- adrodd a chyhoeddi canfyddiadau arolygu ac argymhellion ar gyfer gwella mewn da bryd i safon dda
- hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a rhoi sylw ehangach i amrywiaeth ym mhob agwedd ar ei waith, gan gynnwys yn ei arferion cyflogaeth a'i brosesau sefydliadol ei hun
- sicrhau bod cyn lleied â phosibl o waith ychwanegol yn deillio o feysydd prawf neu dimau troseddau ieuenctid [y rheiny a arolygwyd] o ganlyniad i'r broses arolygu.

Corff cyhoeddus yw'r Arolygiaeth. Dylai unrhyw un sy'n dymuno rhoi sylwadau ar arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sy'n dod o fewn ei gylch gorchwyl ysgrifennu at:

HM Chief Inspector of Probation
2nd Floor, Ashley House
2 Monck Street
London, SW1P 2BQ

http://www.inspectorates.justice.gov.uk/hmiprobation